CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 27ain CHWEFROR 2018.

PRESENNOL:
Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen, Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

YMDDIHEURIAD:
Cynghorwyr Ms Linda Jones, Mr Raymond Evans & Mr John Pritchard.

Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol.**

1.2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw datganiad ar eitemau y rhaglen.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

2.1 Cafwyd adroddiad byr ar lafar gan y Cynghorydd Sirol, Mr Dafydd Roberts yn dilyn Cyfarfod Llawn o'r Cyngor Sir a oedd wedi penderfynnu codi 4.8% yn y Dreth.

2.2 Adroddiad fod y Cyngor Sir wedi sicrhau arian yn dilyn llifogydd Mis Tachwedd, yn arbennig ar gyfer ar A545 rhwng Borthaethwy a Biwmares.

2.3 Soniwyd am trafferth carthffosiad ar tir ger Stad Tyn Rhos oherwydd diffygion y draen ac ei bod yn disgwyl i'r tywydd wella cyn gwneud unrhyw waith ymchwil yn ogystal a cylfat ar hyd Stryd y Capel.

3 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (30ain Ionawr 2018).

3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 30ain Ionawr 2018 yn rhai cywir (DH/EPW) ar ôl nodi a cywiro nad oedd Cynghorydd John Pritchard yn bresennol.

Arwyddo.....

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 **Llwybr 16 –** parhau disgwyl gwellhad Cynghorydd John Pritchard cyn symud ymlaen.

4.2 **Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes** – roedd Cynghorydd Ian Owen wedi sgwrsio gyda PCSO Alison Hughes ac roedd hithau am ddilyn y mater i fyny gyda Adran Traffig yr Heddlu.

4.3 **Safle Gofeb Gaerwen** – adroddiad nad oedd datblygiad ac oherwydd fod pryder yn parhau roedd y Clerc am gysylltu gyda Mr Dylan Huws o Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

4.4 **Stryd & Theras y Capel, Gaerwen –** yn dilyn adroddiad a penderfyniad ymateb gyda sylwadau yng nghyfarfod Mis Ionawr, nodwyd fod blychau cyflymder wedi ei gosod o gwmpas y Gaerwen ond nid ar Stryd y Capel ac gobeithio derbyn eglurhad erbyn y cyfarfod nesaf.

4.5 **Allt Lon Berea –** nodwyd fod gwaith gordyfaint ar ffens rhwng ar A5 a Capel Berea wedi ei wneud.

4.6 **Cais Goleuadau Stryd yn Pentre Berw –** darllenodd y Clerc ymateb Adran Priffyrdd y Cyngor Sir yn dweud y bydd cost o £18,000 angen ei wario er mwyn gosod rhagor o lampau ar ffyrdd o gwmpas y pentref. Trafodwyd y mater yn bellach ac roedd Cynghorydd Sirol Dafydd Roberts am ddarganfod os oedd y cynllun yn disgyn o fewn unrhyw meini prawf ceisiadau cymorth sydd gan y Cyngor Sir. Yn y cyfamser, y Clerc i anfon copi ymateb y Cyngor Sir i lythyr Mr Pritchard.

5 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

5.1 **Adroddiad Taliadau & Derbyniadau Mis Rhagfyr 2017 & Mis Ionawr 2018.**
Fe aeth y Clerc drwy taliadau a derbyniadau y Cyngor am mis Rhagfyr 2017 a Mis Ionawr 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe cytunwyd i wneud y taliadau yn unfrydol.

6 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

6.1 DIM CEISIADAU WEDI EI DDERBYN.

7 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO.

7.1 DIM PENDERFYNIADAU WEDI EI DDERBYN.

8 MATERION CAEAU CHWARAE.

8.1 DIM MATERION YN CODI.

Arwyddo.....

9 MATERION LLWYBRAU.

9.1 DIM MATERION YN CODI.

10 MATERION PRIFFYRDD.

10.1 **Parc Gwyddoniaeth** - nodwyd fod yr arwydd ger cylchdro mynediad y Parc heb symud a gofyn i'r Clerc atgoffa yr Adran Briffyrdd fod angen sylw. Wrth trafod y mater yma, soniwyd fod yno goleuadau fflachar ger y mynedfa ac nid oedd son amdanynt yng nghais cynllunio gwreiddiol a hefyd fod uchder goleuadau llwybr troed o amgylch y safle yn uwch nag a grybwyllwyd yn y cais cynllunio sydd yn achosi pryder.

10.2 **Graeanu Lon Groes** – dangoswyd pryder cyflwr y Lon yn ystod y tywydd oer diweddaraf a gofyn i'r Clerc dwyn sylw yr Adran Briffyrdd oherwydd fod y Lon yn arwain i'r Ysgol ac yn rhan o 'Safer Routes to School'.

10.3 **Stad Rhosdir** – soniwyd fod angen goleuadau stryd ar y stad gan ei fod yn dywyll iawn a gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau gyda'r Adran Briffyrdd.

10.4 **Safle Parcio & Rhannu** – dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn ebost gan y Cyngor Sir yn nodi cyffordd 7 yr A55 (Cefn Du) fel safle posib yn sgil cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Nodwyd y bwriad ac ymestyn gwahoddiad i Mr Gethin Gilford i gyfarfod Mis Ebrill.

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 27ain MAWRTH 2018.

11.1 Diolchodd y Cadeirydd i’r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:00yh.